

## Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017

### **Trwydded i feddu ar sbesimenau marw a/neu ddeilliadau rhywogaethau o anifeiliaid gwyllt a restrwyd yn Atodiad IV a II(b) i'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'u cludo i ddibenion gwyddonol neu addysgol**

#### **Ar gyfer amgueddfeydd, ymchwil a sefydliadau addysgol y bwriadwyd y drwydded hon yn bennaf**

Mae'r corff adnoddau naturiol ar gyfer Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru), gan arfer yr hawliau a roddwyd dan reoliad 55 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, ac o fod yn fodlon yng nghyswllt y pwrpas a nodwyd ym mharagraff 1 nad oes dewis arall boddhaol ac na fydd y weithred a awdurdodir yn cael effaith andwyol ar gadw'r poblogaethau o'r rhywogaeth dan sylw mewn statws cadwraeth ffafriol yn eu cynefin naturiol, drwy hyn yn rhoi'r drwydded a ganlyn:

#### **TRWYDDED**

- 1) Mae'r drwydded hon yn awdurdodi gweithgareddau yr ymgwymerir â hwy i ddibenion gwyddonol neu addysgol.
- 2) Yn amodol ar y telerau a'r amodau isod, ac i'r dibenion a nodir ym mharagraff 1 uchod, mae'r drwydded hon yn rhoi caniatâd i feddu ar sbesimenau marw a/neu ddeilliadau anifeiliaid gwyllt a restrwyd yn Atodiad IV a phlanhigion gwyllt (ac eithrio bryoffyttau) a restrwyd yn Atodiad II(b) i Gyfarwyddeb Cynefinoedd y GE ac i'w cludo. Heb y drwydded, byddai hyn yn drosedd dan reoliadau 43(3)(a) neu (b) (anifeiliaid) neu 46(2)(a) neu (b) (planhigion) Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd).

#### **TELERAU AC AMODAU**

- 3) Dim ond ar gyfer y sefydliadau a restrir yn Atodiad A neu B ynghyd â gweithwyr, isgcontractwyr, negeswyr a gwasanaethau post sy'n gweithredu ar eu rhan, y mae'r drwydded hon yn berthnasol.
- 4) Mae'r drwydded hon yn rhoi caniatâd yn unig i feddu ar sbesimenau marw a/neu ddeilliadau anifeiliaid gwyllt a restrwyd yn Atodiad IV neu Atodiad II(b) (ac eithrio bryoffyttau) i Gyfarwyddeb Cynefinoedd y GE a'u cludo, ar yr amod -
  - a) eu bod yn cael eu cadw a'u cludo i ddibenion gwyddonol neu addysgol yn unig; a
  - b) eu bod wedi eu cymryd o'r gwyllt yn y Gymuned Ewropeaidd heb dorri deddfwriaeth berthnasol yr Aelod-wladwriaeth dan sylw (gweler Nodyn d).
- 5) Yn amodol ar amod 6, rhaid i unrhyw sefydliad neu berson sy'n dibynnu ar y drwydded hon gan ei fod wedi ei restru yn Atodiad A neu gan ei fod yn weithiwr cyflogedig neu'n is-gontractwr i sefydliad a restrir yn Atodiad A, hysbysu Tîm Gwarchod Rhywogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ysgrifenedig, a rhoi eu manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost, o fewn mis i'r dyddiad y daw'r sbesimen i'w meddiant am y tro cyntaf.
- 6) Lle bo sefydliad wedi hysbysu CNC yn unol ag amod 5 uchod, nid oes angen i'r rhai hynny sy'n dibynnu ar y drwydded hon gan eu bod yn weithwyr cyflogedig neu'n isgcontractwyr i'r sefydliad hwnnw hysbysu CNC ar wahân.

- 7) Rhaid catalogio sbesimenau a chadw rhestr ohonynt gan ei diweddaru'n flynyddol yn unol â gofynion Atodiad C. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i'w harchwilio gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar unrhyw adeg resymol.
- 8) Nid oes raid i negeswyr a gwasanaethau post hysbysu CNC ar wahân na chadw rhestr o sbesimenau lle byddant yn gweithredu ar ran sefydliad neu berson a restrir yn Atodiad A, sydd wedi hysbysu CNC fel sy'n ofynnol yn Amod 5, neu sefydliad neu berson a restrir yn Atodiad B.
- 9) Mae'r drwydded hon yn ddilys yng Nghymru, oni fydd wedi ei dirymu cyn hynny, ar gyfer y cyfnod o **30 Tachwedd 2017 i 31 Rhagfyr 2022**.



Carys Roberts  
Arweinydd Tim Trwyddedu Rhywogaethau  
dros ac ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru  
30 Tachwedd 2017

Tim Trwyddedu,  
Cyfoeth Naturiol Cymru,  
Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd,  
Bangor, LL57 2DW

**Ffôn 03000653000**

**E-bost**

[trwyddedrhywogaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:trwyddedrhywogaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

---

## **NODIADAU**

### **Nid yw'r nodiadau hyn yn rhan o'r drwydded.**

- (a) Gwaherddir meddu ar sbesimenau marw a/neu ddeilliadau rhywogaethau a restrwyd yn Atodiad IV neu Atodiad II(b) (ac eithrio bryoffytau) i Gyfarwydddeb Cynefinoedd y GE (92/43/EEC) a'u cludo gan reoliad 43 (anifeiliaid) a 46 (planhigion) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd i'w gweld yn:

<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2017/1012/contents/made>

- (b) Mae'r gwaharddiad hwn yn berthnasol i bob rhywogaeth a restrwyd yn Atodiad IV (anifeiliaid a phlanhigion) ac Atodiad II(b) (planhigion) (ac eithrio bryoffytau) ac nid yn unig i'r rhai sydd i'w gweld yn y DU. Mae rhestr lawn o rywogaethau Atodiad IV ac Atodiad II (b) i'w gweld ar-lein yn:

[ec.europa.eu/environment/nature/nature\\_conservation/eu\\_enlargement/2004/habitats/annexiv\\_en.pdf](http://ec.europa.eu/environment/nature/nature_conservation/eu_enlargement/2004/habitats/annexiv_en.pdf)

- (c) Mae rhai eithriadau i'r gwaharddiadau yn rheoliadau 43 a 46:

- (i) Lle cafodd y sbesimen ei gymryd o'r gwyllt y tu allan i'r GE neu lle cafodd ei fagu neu ei feithrin mewn caethiwed;

- (ii) Lle cafodd y sbesimen ei gymryd o'r gwyllt cyn y 'dyddiad perthnasol' yn yr Aelod-wladwriaeth dan sylw heb dorri cyfraith yr Aelod-wladwriaeth honno. Y dyddiad perthnasol yn y DU yw 10 Mehefin 1994. Y dyddiad perthnasol mewn Aelod-wladwriaethau eraill yw 10 Mehefin 1994, neu os yw'r Wladwriaeth wedi ymuno â'r GE ar ôl y dyddiad hwnnw, y dyddiad yr ymunodd â'r GE;

- (iii) Lle bo'r sbesimen yn rhywogaeth esempt, sef y rhai hynny a restrir yn Atodlen 3 i Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Mae'r drwydded hon yn ymwneud â meddu ar sbesimenau a gymerwyd o'r gwyllt ar ôl y 'dyddiad perthnasol' heb dorri unrhyw gyfraith berthnasol yn yr Aelod-wladwriaeth lle cawsant eu cymryd. Yn y DU er enghraifft, byddai hyn yn golygu heb dorri deddfwriaeth

bywyd gwyllt berthnasol fel y Rheoliadau Cynefinoedd (1994), y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981), y Ddeddf Plâu (1954) a'r Ddeddf Lles Anifeiliaid (2007).

- (d) Mae'r drwydded yn caniatáu gwneud pethau a fyddai, fel arall, yn drosedd dan y Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Fe allai methu â gweithredu o fewn dibenion y drwydded hon fel y nodir ym mharagraff 1, neu fethu â chydymffurfio â'r amodau a'r telerau a bennir ym mharagraffau 3 i 9, olygu na fyddai'r drwydded yn berthnasol, gan arwain at gyflawni trosedd. Ymhellach, dan reoliad 60 y Rheoliadau, mae'n drosedd torri neu fethu â chydymffurfio ag unrhyw amod o fewn trwydded a roddwyd ar ôl 21 Awst 2007. Y gosb waethaf ar gyfer cyflawni trosedd dan y Rheoliadau yw dirwy lefel 5 (£5000) a/neu ddeddfryd o garchar am chwe mis.
- (e) Nid yw'r drwydded hon yn ymestyn i wirfoddolwyr neu unigolion a gofrestrwyd fel aelodau o'r sefydliadau hynny a restrir yn atodiadau A neu B fel gwirfoddolwyr. Nid yw'r drwydded yn berthnasol i weithwyr ac unigolion a is-gontractiwyd gan sefydliadau a restrir yn Atodiad A neu B sy'n meddu ar/neu sy'n cludo rhywogaethau a restrir yn Atodiad IV neu Atodiad II(b) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd at ddibenion personol.
- (f) Nid yw'r drwydded hon yn caniatáu gweithredoedd sydd wedi eu gwahardd dan unrhyw ddeddfwriaeth arall, ac nid yw'n rhoi unrhyw hawl mynediad i dir.
- (g) Gall Cyfoeth Naturiol Cymru addasu neu ddirymu'r drwydded hon ar unrhyw adeg.
- (h) Cyhoeddwyd trwydded debyg yn Lloegr gan Natural England.

Mae'r drwydded hon yn berthnasol i'r sefydliadau a'r unigolion a restrir yn amod 3 uchod yn unig:

#### **ATODIAD A**

1. Amgueddfeydd gydag achrediad llawn o dan y Cynllun Achredu Amgueddfeydd, a weithredir gan y Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau ([www.mla.gov.uk](http://www.mla.gov.uk));
2. Sefydliadau addysgol.

#### **ATODIAD B**

1. Labordy Gwyddoniaeth Canolog Defra;
2. Asiantaeth Labordai Milfeddygol Defra;
3. Llywodraeth Cymru;
4. Cymdeithas Sŵoleg Llundain a Sefydliad Sŵoleg Llundain;
5. Cyfoeth Naturiol Cymru;
6. Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, trwy ei ganolfannau ymchwil cydrannol (yr Arolwg Antartig Prydeinig, Arolwg Daearegol Prydain, y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg a Labordy Eigioneg Proudman) a'i ganolfannau cydweithredol cysylltiedig (y Ganolfan Eigioneg Genedlaethol, Labordy Morol Plymouth, Cymdeithas Gwyddorau Morol yr Alban a'r Uned Ymchwil Mamaliaid y Môr);
7. Y Gerddi Botaneg Brenhinol (Kew);
8. Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru;
9. Rhaglen Ymchwil y DU i Forfilod wedi Tirio;
10. Canolfannau maes y Cyngor Astudiaethau Maes;
11. Pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru.
12. Awdurdodau Heddlu Cymru

## ATODIAD C

### Cofrestr sbesimenau

Rhaid i'r gofrestr o sbesimenau Atodiad IV ac Atodiad II(b) gynnwys y wybodaeth a nodir yn y tabl isod a rhaid ei chyflwyno yn y ffurf a ddangosir. Dylid cadw copi o'r gofrestr yn electronig mewn ffurf sy'n gydnaws â Microsoft EXCEL.

Enw gwyddonol	Enw cyffredin	Sbesimen cyfan (le/Nage)	Os Nage, nodwch y rhan neu'r deilliad	Nifer	Y dyddiad y daeth i'ch meddiant
<i>Enghraifft:</i> <i>Nyctalus noctula</i>	Ystlum mawr	Nage	Ysgerbwd	1	01/05/2007